

Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn

Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid

Digwyddiad a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau dienw y digwyddiad rhithwir i randdeiliaid y gwnaethom ni ei gynnal ar 12 Hydref 2020 i lansio ein hymchwiliad i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Diben y digwyddiad i randdeiliaid oedd cael arweiniad cychwynnol gan gyrrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol ynghylch y rhwystrau i weithredu'r Ddeddf.

Fe wnaeth cynrychiolwyr o tua 40 o wahanol sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ymuno â ni. Fe wnaethom ni ddefnyddio arolygon, trafodaeth mewn grwpiau bach a'r sgrin sgwrsio rithwir i gasglu tystiolaeth.

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn cynnwys data meintiol o arolygon a gynhaliwyd yn ystod y digwyddiad, nodiadau o'r drafodaeth gan staff y Pwyllgor, a dyfyniadau uniongyrchol o dystiolaeth ysgrifenedig y rhai a oedd yn bresennol. Trefnwyd y data yn themâu, ond nid ydynt wedi'u crynhoi na'u cyddwyso. Gall hyn arwain at beth ailadrodd, lle cafodd pwyntiau tebyg eu gwneud gan aelodau o wahanol grwpiau trafod.

I gael mwy o wybodaeth am y papur hwn, ein hymchwiliad neu waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, e-bostiwch SeneddArchwilio@Senedd.Cymru.



Cynnwys


1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau	2
Arolygon.....	2
Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp	3
Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol	6
2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus weithredu'r Ddeddf a pha mor effeithiol y'u defnyddiwyd.	7
Arolwg.....	7
Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp	7
Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol	9
3. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus	11
Arolwg.....	11
Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp	11
Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol	13
4. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru	15
Arolwg.....	15
Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp	15
Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol	19
5. Rhwystrau posibl eraill (e.e. Brexit, COVID ac ati).....	21
Arolwg.....	21
Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp	21
Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol	23
6. Edrych tua'r dyfodol - sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol	24
Arolwg.....	24
Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp	24
Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol	29

1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau


Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol a yw diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn rhwystr i'w gweithredu.

Arolygon

Fe wnaethom ni roi'r cwestiynau a ganlyn i'r rhai a oedd yn bresennol: "Mae'r cyhoedd yn gwybod am y Ddeddf hon a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw. I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno?". Ymatebodd 39 ohonynt fel a ganlyn.



Fe wnaethom ni hefyd ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn: "Mae cyrff cyhoeddus yn gwybod am y Ddeddf hon a'i goblygiadau". Ymatebodd 39 fel a ganlyn.



Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp

Ymwybyddiaeth

- Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf yn isel ac mae angen gwneud mwy o waith i drosi'r hyn y mae'r ddeddf yn ei olygu i bobl Cymru yn eu bywydau o ddydd i ddydd (e.e. y cysylltiad rhwng y Ddeddf a'r penderfyniadau ynghylch ffordd liniaru'r M4).
- Mae ymwybyddiaeth a gwybodaeth y cyhoedd yn hollbwysig wrth symud ymlaen os yw'r cyhoedd am gael ei rymuso i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.
- Mae rhai rhannau o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r Ddeddf ond nid yr hyn y bwriedir iddi ei wneud a'r hyn y gellir ei gyflawni yn yr hirdymor
- Perygl difaterwch ymhlith y cyhoedd – mae angen dangos y gall pethau newid, ac y byddant yn newid.
- Mae angen chwalu'r rhwystrau i gyfathrebu – mae gofynion y Ddeddf yn annealladwy i'r person cyffredin.
- Ar y cyfan nid yw'r cyhoedd yn gwybod llawer am y Ddeddf, ond a oes angen iddynt wybod amdani? Mae angen iddynt chwarae mwy o ran yn y prosiectau sy'n deillio ohoni.
- Mae'n ymddangos bod ychydig mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r Ddeddf hon o'i chymharu â rhai eraill.

- Mae pobl yn meddwl mai dim ond Deddf amgylcheddol yw hon ac nid ydynt yn deall yr effaith ehangach.
- Nid oes ots a yw pobl wedi clywed am ddarn o ddeddfwriaeth neu wedi clywed amdani; yr hyn sy'n bwysig yw'r canlyniadau a ddaw i bobl.
- Gall y Ddeddf gael effaith o hyd, hyd yn oed os nad yw'r cyhoedd yn gwybod llawer amdani.
- Nid yw'r negeseuon am y gwahaniaeth y gall y Ddeddf ei wneud yn ddigon cryf.
- Efallai na fydd y ffaith nad yw llawer o'r cyhoedd yn gwybod am y Ddeddf yn broblem, oherwydd gallai fod yn ddigon i'r bobl sy'n chwarae rhan yn y prosiectau i dderbyn y buddion fod yn ymwybodol.
- Mae angen egluro'r buddion y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cynnig i gymdeithas.
- Y peth pwysig yw sut i'w drosi i fywydau pobl bob dydd
- Mae angen trosi hyn mewn ffordd y gall y cyhoedd ei deall: "beth mae hyn yn ei olygu i mi?"
- Mae cyfrifoldeb arnom i fynd â hyn i'n sefydliadau ein hunain.

Hyrwyddo'r Ddeddf

- Mae'r gwaith cyfathrebu ynghylch y Ddeddf wedi bod yn dda iawn. Fel elusen fach, mae'r gwaith cyfathrebu wedi bod yn dda, er nad ni oedd yn uniongyrchol gyfrifol am ei gweithredu.
- Nid yw'r Ddeddf wedi cael ei hyrwyddo'n ddigonol ac ni fu digon o ymgysylltu â chyrff y trydydd sector
- Yn gyffredinol, mae pobl wedi clywed enw'r Ddeddf ond nid ydynt yn gwybod beth mae'n ei olygu.

Gweithredu

- Mae hon yn Ddeddf weledol iawn ac mae'n cael ei chyfleu'n dda, ond beth ddaw ar ôl hyn? Mae angen newid ymddygiad i gefnogi gweithredu'r Ddeddf, sydd yn fwy cymhleth. Mae angen gwneud mwy i greu ymdeimlad o ganlyniadau cyffredin. Er enghraifft, er bod cerrig milltir cyffredin yn rhan o'r Ddeddf nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng

digartrefedd a'r broblem y mae hyn yn ei achosi i'r sector iechyd a'r gwasanaeth prawf ac eraill. Nid oes pontio rhwng yr holl faterion sy'n cyfrannu at well llesiant neu sylw ar ofal iechyd ataliol er mwyn sicrhau llesiant gwell yn yr hirdymor.

- Nid dim ond y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae pawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a chymunedau sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf yn arweinwyr o ran ymwreiddio ei nodau ac, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, mae ganddynt rôl gyfartal i'w chwarae o ran ei gweithredu.
- Yn ei deall yn fanwl ond mae ei gweithredu yn fater gwahanol.
- Bydd yn cymryd llawer o waith i ddeall ei goblygiadau ar y rheng flaen.
- Her i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan fod angen iddynt brofi eu bod yn cyflawni ond yn gwerthfawrogi bod pethau ond megis decrau o ran gweithredu'r Ddeddf.
- Mae'n Ddeddf radical, ond nid yw wedi arwain at weithredu radical.
- Mae yna ddiffyg gweledigaeth o sut beth yw byw mewn cymdeithas lle mae'r Ddeddf yn gweithio'n iawn.
- Mae'r Ddeddf yn cael ei chyfleu'n dda i sefydliadau a chyrff sydd â dealltwriaeth o'r Ddeddf mewn dull o'r brig i lawr, ond mae cwestiynau o hyd am y ffordd orau o'i chyfleu i weddill y staff a sut mae'n effeithio ar eu gwaith/bywydau bob dydd.
- Dylai pob partneriaeth gydnabyddedig fod yn gwneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan y Ddeddf ac yn symud polisiau/mentrau ymlaen
- Mae'n fater o ba mor dda yr ydym yn ei gweithredu yn ein strategaeth.

Cymhlethdod

- Mae'r Ddeddf yn gymhleth iawn (nodau llesiant, ffyrdd o weithio, meysydd newid, amcanion llesiant) ac nid yw hyn o gymorth o ran cael dealltwriaeth.
- Er bod y Ddeddf ei hun yn syml, nid yw hyn yn wir o ran yr iaith sy'n cael ei defnyddio o amgylch y Ddeddf.

- Weithiau gall y dull o'r brig i lawr achosi problemau o ran dosbarthu gwybodaeth am y Ddeddf.

Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

“Mae'r Ddeddf yn gam cadarnhaol o ran iechyd/llesiant ehangach y cyhoedd ac yn gyfle i ail-lunio sgysiau.”

“Mae angen disgwyliadau realistig o'r effaith y mae'r Ddeddf yn debygol o'i chael, yn enwedig yn y tymor byr.”

“Mae angen mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r Ddeddf, gan gynnwys y mater o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er bod sefydliadau'n ymwybodol o'r Ddeddf, nid yw'r cyhoedd. Nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dryloyw iawn e.e. penderfyniadau/pwy sy'n eistedd arnynt ac ati.”

“Roedd angen mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd o'r dechrau, a gwneud hynny'n barhaus.”

“Mae angen rhoi hwb mawr i helpu i gael mwy o bobl i ddeall y Ddeddf yn gyffredinol.”

“Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod sefydliadau yn deall y Ddeddf ac yn ymgymryd â hi, gan sicrhau bod pawb yn gwybod ei bod yn berthnasol iddyn nhw, nid rhywbeth y mae timau eraill yn ei wneud i'r sefydliad.”

“Mae angen hyrwyddwyr lleol i helpu i hyrwyddo'r Ddeddf a chasglu gwaith da sy'n digwydd ar lefel weithredol.”

“Mae angen newid diwylliannol er mwyn ymgorffori'r Ddeddf.”

“Dylai'r Ddeddf fod yn fwy hanfodol yng ngoleuni'r argyfyngau presennol, a dylai fod yn fframwaith ar gyfer ymdrin â nhw.”

“Mae cefnogaeth gyffredinol i'r Ddeddf ac rydym ar y llwybr cywir.”

“Mae yna risgiau o beidio â gweithredu mewn ffordd radical.”

“Profiadau sy'n cael eu rhannu a heriau yn gyffredin.”


“Mae yna ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r Ddeddf a'r daith y bu'n rhaid i bobl/sefydliadau fynd arni i ddechrau ei deall.”

2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus weithredu'r Ddeddf a pha mor effeithiol y'u defnyddiwyd.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol a oes gan y 44 o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf yr arian, yr arbenigedd a'r amser y mae eu hangen arnynt i'w gweithredu. Fe wnaethom ni ofyn hefyd pa mor effeithiol y defnyddiodd gyrff cyhoeddus yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Arolwg

Fe wnaethom ni ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn: "Mae gan gyrff cyhoeddus yr adnoddau sydd eu hangen arnynt nhw i weithredu'r Ddeddf". Ymatebodd 39 fel a ganlyn.



Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp

Dyrannu adnoddau

- Gall adnoddau fod yn bwerus os ydynt yn cael eu cyfeirio yn y ffordd iawn.
- Y system yw'r broblem yn hytrach na digonolrwydd yr adnoddau.

- Mae angen i sefydliadau gael bod yn fwy annibynnol i ddefnyddio adnoddau at ddibenion mwy penodol.
- Mae'r Comisiynydd yn gwario adnoddau ar fardd preswyl ac yn llunio dogfen 800 tudalen, tra bod eraill yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r arian i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.
- Mae cyllid grant ar gyfer awdurdodau lleol yn rhy rhagnodol/wedi'i neilltuo - mae hyn yn golygu na allant ei ddefnyddio i gyflawni'r hyn y gallent fod eisiau ei wneud o dan y Ddeddf.
- Mae gwleidyddiaeth yn gyrru cylchoedd cyllido byr.
- Mae adnoddau'n cael eu dyrannu i raddau helaeth yn yr un modd ag sydd wedi digwydd yn hanesyddol yn hytrach na mewn ffordd gyfannol.
- Mae pobl yn dilyn adnoddau ac arian ac felly mae'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws cyrff yn bwysig.
- Mae prosesau'n rhy fiwrocraataidd – mae'r ffaith bod angen creu 22 o bopeth yn wastraff adnoddau

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- Mae angen cyllidebau cyfun ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud newid go iawn ond mae'n anodd gwneud hynny – yn enwedig i bartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â sawl un o'r Byrddau.
- Mae cyllid ar gyfer cydgysylltwyr BGC wedi'i ddileu.
- Mae angen staff cymorth penodedig ar gyfer BGC ond mae hyn wedyn yn arwain at farn gan eraill mai cyfrifoldeb unigolyn yw hyn ac nad yw gwaith wedi'i ymgorffori ar draws sefydliad.
- Prin yw'r adnoddau ar gyfer BCG.

Cyfuno

- Mae digon o adnoddau ar lawr gwlad, ond nid ydynt yn cael eu cyfuno'n ddigon da

Deunyddiau a dogfennau

- Er bod yr adnoddau [i gefnogi cyrff i weithredu'r Ddeddf] yn dda iawn, weithiau gall faint o adnoddau sydd ar gael ac y mae angen eu darllen fod yn ormod.
- Llawer o becynnau cymorth a chymorth ar gael - bron gormod o gymorth. Mewn sefydliadau mawr, yr hyn sydd ei angen arnoch chi yw'r amser i wau pethau gyda'i gilydd yn rhywbeth mwy hirdymor.
- Teimladau cymysg o ran yr adnoddau sy'n cael eu darparu [i gefnogi cyrff i weithredu'r Ddeddf]; er eu bod yn dda, gallent elwa o fod yn llawer symlach ac yn fyrrach.
- Mae angen i gyrff cyhoeddus gyflawni cymaint ar draws llawer o wahanol sectorau. Mae angen rhywun i gydgysylltu'r dull gweithredu yn fewnol. Mae'r adnoddau o swyddfa'r comisiynydd yn dda, ond mae cymaint y gallant fod yn ormod; mae angen mwy o amser cydgysylltu i wneud i bethau ddigwydd.
- Mae ceisio gweithredu'r holl gamau y gofynnwyd amdanynt wedi bod yn heriol i rai, gan fod teimlad bod disgwyliadau uchel o ran eu gweithredu i gyd, sy'n gallu cymryd llawer o amser.
- Mae integreiddio'r adnoddau mewn rhai prosesau wedi gwella'r ffordd y maent yn gweithio ac wedi helpu i hyrwyddo ffyrdd mwy effeithiol o feddwl.

Amrywiol

- Dylai gwaith o dan y Ddeddf ganolbwyntio ar y canlyniadau a ddymunir, ond mae diffyg trosolwg strategol ar hyn.
- Yr hyn sydd ei eisiau'n fwy yw amser a lle i lunio strategaethau a sut i weithredu'r ddeddf.

Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

“Mae pethau symlach yn fwy defnyddiol na dogfennau hir – y rhestr o'r ffyrdd o weithio a'r Dangosyddion Cenedlaethol.”

“Mae'r Ddeddf wedi darparu fframwaith defnyddiol i dywys syniadau.”

“Mae wedi cynnig ffordd o wneud timau yn seiliedig ar le, yn unol â'r ddeddfwriaeth.”

“Mae'r canllawiau ynghylch y Ddeddf yn dda, yn enwedig y canllawiau cryno sy'n glir ac yn hawdd eu deall, ac yn syml iawn i'w cyfleu.”

“Mae'r fframwaith yn helpu i leoli'r rôl y gall partneriaid ei chwarae.”

“Roedd canllawiau statudol yn ddefnyddiol iawn o ran cael pob sefydliad i weithio i'r un cyfeiriad.”

“Gwybodaeth glir a chryno am y nodau llesiant.”

“Mae wedi darparu iaith a naratif cyffredin.”

“Mae wedi darparu fframwaith, drwy'r nodau a'r ffyrdd o weithio, i feddwl am faterion.”

“Mae wedi darparu dull cenedlaethol o osod egwyddorion a disgwyliadau.”

“Mae wedi darparu ffocws ar gyfer strwythuro dulliau gweithredu ynghylch pethau fel ceisiadau cyllido ac arfarniadau.”

“Mae canllawiau ffurf fer wedi bod yn hanfodol i helpu i ddod â ffocws.”

“Mae yna lawer o aneffeithiolrwydd ynghylch adnoddau, gyda'r holl gyrff yn ceisio gweithio allan ar eu pennau eu hunain sut mae'n gweithio'n ymarferol.”

“Mae angen mwy ar lawr gwlad/cyngor ymarferol ac adnoddau.”

“Mae angen meddwl sut mae polisiau, cynlluniau ac adnoddau yn cael eu cydblethu. Nid adnoddau newydd yw'r peth pwysig bob tro, er bod hyn yn helpu.”

“Mae angen mecanweithiau ar gyfer cydweithredu e.e. cronni cyllidebau yn lleol, yn ogystal ag atebolrwydd. Diffyg fframweithiau ar gyfer rhannu atebolrwydd.”

“Mae yna her fawr o ran adnoddau. Nid y broblem yw na oes gennym yr adnoddau na'r arian i'w cyflawni ar lefel BGC; nid oes gennym y strwythurau, yr ymrwymiad a'r atebolrwydd cywir i alluogi gwaith partneriaeth ar lefel leol.”


“Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol, Byrddau Partneriaeth Lleol a Byrddau Cynllunio Ardal i gyd yn gwneud yr un gwaith – goblygiadau enfawr o ran adnoddau.”

3. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus

Fe wnaethom ni holi'r rhai a oedd yn bresennol am Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa: sut mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus, pa gymorth y mae ei swyddfa yn ei darparu, a yw'n canolbwyntio ar y meysydd cywir ac a oes ganddi'r adnoddau y mae eu hangen arni.

Arolwg

Fe wnaethom ni ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn: "Mae'r Comisiynydd yn darparu'r gefnogaeth a'r orfodaeth briodol i helpu cyrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith". Ymatebodd 39 fel a ganlyn.



Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp

Cynhwysiant a chydberthynas

- Mae rhai yn teimlo nad yw Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yno i bawb ac yn sicr nid y cyrff y tu allan i'r rhai sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf. Mae gan y cyrff eraill hyn rôl o ran cyflawni'r Ddeddf ac mae angen ymgysylltu â nhw hefyd.

- Y teimlad yw bod yna berthynas 'nhw a ni' yn lle bod gyda'n gilydd ar benderfyniadau.
- Gallai Swyddfa'r Comisiynydd fod yn llawer agosach at y BGC a sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- Efallai y gellid gwneud mwy o gynnydd pe bai Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio'n agosach gyda sefydliadau ac yn galluogi pobl i drafod syniadau/ceisio cyngor.
- Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn amrywio.
- Gwelwyd bod y berthynas â'r Comisiynydd a'r swyddogion yn ei swyddfa yn un gadarnhaol, a bu llawer o gefnogaeth gorfforol e.e. mae staff y Comisiynydd wedi siarad mewn digwyddiadau.
- Mae adborth y Comisiynydd yn tueddu i fod yn negyddol – gormod o feirniadaeth a dim digon o fewnbwn ymarferol
- Y farn yw ei bod yn hawdd mynd at swyddfa'r Comisiynydd a'i bod yn darparu llawer o gefnogaeth gyda phethau fel pecynnau cymorth.

Proffil

- Mae proffil cyhoeddus y Comisiynydd wedi bod yn gadarnhaol.
- Mae hi wedi bod yn llysgennad gwych i'r Ddeddf.
- Yn cael ei gweld fel grym da dros newid, e.e. mae wedi bod yn mynd at y GIG wrth edrych ar waith at y dyfodol a sefydlu grŵp llywio, gan ei bod eisiau clywed yn gyntaf cyn cymryd unrhyw gamau.

Craffu/gorfodaeth yn erbyn cefnogaeth

- Mae angen craffu ar gyrff a'u dwyn i gyfrif, ond ar hyn o bryd maent yn teimlo eu bod yn destun gwaith craffu ac nad ydynt yn cael cymorth mewn cyfnod sy'n gynnar iawn o hyd.
 - Mae angen mwy o 'ddannedd' ar y Comisiynydd i helpu i weithredu'r Ddeddf
 - Mae'n debyg bod angen gwahanu'r rolau cymorth a gorfodaeth i sicrhau bod cyflawni'n digwydd yn gywir ac fel bod mwy o gefnogaeth yn gallu bod ar gael; mae'n debyg y byddai swyddfa'r Comisiynydd yn elwa o fod yn fwy.
-

- Dylai rôl y Comisiynydd fod yn un sy'n cefnogi yn hytrach nag yn gorfodi. Rôl Archwilio Cymru yw gorfodi.

Adnoddau a phennu adnoddau

- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa yn cynnig llawer o gefnogaeth a phecynnau cymorth ac ati, ond ar adegau mae deall y cyfan a rhoi'r arweiniad ar waith yn her.
- Ddwy flynedd yn ôl, cwblhawyd offeryn hunanymwybyddiaeth manwl ar adroddiad blynyddol, a oedd yn ddarn cadarnhaol o waith. Yn dilyn hynny, mae'r ffocws wedi symud i adrodd yn unig. Hoffwn weld sut y caiff pryderon eu hateb. Mae'r momentwm o wneud/cyflawni'r gwaith hwn wedi dod i ben ac mae angen llawer o waith i'w gael yn ôl.
- Nid yw'n anfon y neges iawn lle mae hi'n gwario arian cyhoeddus ar 'fardd preswyl' tra bod awdurdodau lleol yn stryglo am arian.
- Nid yw'r adroddiad 800 tudalen yn ddefnyddiol.
- Mae'r adnoddau y mae'r Comisiynydd yn eu darparu i gyrff cyhoeddus yn fanwl iawn, ond mae hynny'n ei gwneud yn anodd i sefydliadau wybod ble i ddechrau. Mae angen mwy o gefnogaeth arnyn nhw.
- Nid oes gan swyddfa'r Comisiynydd ddigon o adnoddau i allu darparu cefnogaeth briodol.

Amrywiol

- Mae angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn rhagweithiol hefyd gan nad y Comisiynydd yn unig sy'n gyfrifol am helpu i weithredu'r Ddeddf. Mae angen i gyrff cyhoeddus ymateb i ymgynghoriadau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Teimlo bod gormod o sefydliadau yn ddyblygu'r un materion.
- Mae'n anodd gorfod adrodd i gynifer o wahanol gomisiynwyr – dylai fod un mecanwaith adrodd integredig i bob comisiynydd.

Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

“Mae arweiniad gan swyddfa'r Comisiynydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth weithredu'r Ddeddf.”

“Dylai fod gan y Comisiynydd bwerau gorfodi.”

“Mae angen i'r Comisiynydd gefnogi sefydliadau i weithredu'r Ddeddf – nid dim ond adroddiadau.”

“Dylai fod gan y Comisiynydd rôl gryfach o ran cefnogi/hwyluso, yn hytrach na gorfodi. Beth yw rôl Archwilio Cymru?”


“Mae angen cyngor strategol lefel uchel.”

4. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru yn un o'r 44 o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd rôl i arwain drwy esiampl a sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Fe wnaethom ni ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn credu bod Llywodraeth Cymru yn rhwystr i weithredu ac, os felly, sut.

Arolwg

Fe wnaethom ni ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn: "Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth effeithiol o ran gweithredu'r Ddeddf". Ymatebodd 39 fel a ganlyn.



Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp

Cyffredinol

- Atgoffwyd, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol yn 2015, bod yn rhaid gweithredu'r Ddeddf a'n bod ni ond tair blynedd i mewn i broses 25 mlynedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.
- Awgrymwyd efallai bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod bod angen iddi fod yn fwy rhagnodol ac efallai edrych ar fodelau sydd wedi'i mabwysiadu gan eraill (y Ffindir a Singapore).

- Y farn oedd bod angen cynllunio mwy ar gyfer yr hirdymor, yn benodol y tu hwnt i gylchoedd etholiadol.
- Mae angen newid sylfaenol ar lefel Llywodraeth Cymru i wella trosglwyddiad ar draws y sector cyhoeddus – nid yw'n ymddangos bod adrannau Llywodraeth Cymru yn siarad â'i gilydd felly mae'n anodd disgwyl i weddill y sector cyhoeddus wneud hynny. Mae'r system lywodraethu yn cyfrannu at ddryswch ac yn creu rhwystrau.
- Mae'r holl adnoddau'n cael eu buddsoddi yma ac nawr nid oes lle i ystyried yr hirdymor a mapio'r blaenoriaethau/nodau hynny.
- Iechyd y cyhoedd – dylid darparu cyllid ar gyfer atal problemau. Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn chwarae rolau pwysig o ran atal problemau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn dda o ran arwain ar nodau.
- Nid yw BGC yn dangos dyhead addas. Gall sefydliadau unigol guddio y tu ôl i gyrff partneriaeth. Awyddus i weld 'mwy o ddannedd' yn y model BGC neu fodel newydd i'w disodli ond ni awgrymwyd unrhyw ddewisiadau amgen.

Dull gweithredu Llywodraeth Cymru

- Pan mae wedi bod mewn cysylltiad, mae wedi bod o gymorth.
- Yn hawdd mynd ati – yn awyddus i wneud i bethau weithio.
- Yn frwdfrydig iawn – ond mae arnom angen nifer fach o bobl ranbarthol i'n helpu dros y blynyddoedd cyntaf gan eu bod yn her.
- Nid oedd gweithredu byth yn mynd i fod yn hawdd ond mae'r ffyrdd o weithio o dan y Ddeddf yn cael eu gwthio o'r neilltu pan fydd angen gwneud penderfyniadau anodd sy'n golygu nad yw ei hegwyddorion yn cael eu hymgorffori.
- Pe bai'r Ddeddf yn cael lle mwy blaenllaw yn Llywodraeth Cymru, byddai'r rhyngweithio ag eraill yn wahanol.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn ddigon dewr.
- Nid oes cyfrifoldeb gweinidogol clir dros y Ddeddf.
- Llywodraeth Cymru yn amharod i 'weithredu'r geiriau'.

- Diffyg integreiddio o fewn Llywodraeth Cymru – yn dal i weithio mewn seilos.
- Er mwyn i'r Ddeddf weithio a dod â'r buddion a ddymunir, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ei rôl arweinyddiaeth ac mae angen iddi ymgorffori'r Ddeddf yn y modd y mae'n gweithredu.
- Mae'r ffordd y mae cyrff yn cael eu trefnu a'u ffurfweddu yn effeithio ar ba mor dda y maent yn integreiddio – efallai na fydd natur y Gwasanaeth Sifil yn hwyluso hyn.
- Mae angen i lythyrau cylch gwaith Gweinidogol edrych yn fwy ar yr hirdymor.
- Mae angen mwy o gysondeb gan Lywodraeth Cymru wrth gyfeirio at y Ddeddf.
- Mae'n ymddangos bod dehongliadau a blaenoriaethau gwahanol o'r Ddeddf yng ngwahanol adrannau'r Llywodraeth.
- Mae'r Ddeddf wedi arwain at ddiwygio 'meddal' yn y sector cyhoeddus hyd yn hyn yn hytrach na newid mwy radical.
- Rhai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn ôl-osod penderfyniadau i gydfynd ag egwyddorion y Ddeddf yn hytrach nag ymgymryd â 'meddwl heb orwelion'.

Adnoddau a chyllid

- Yn aml mae cyllid yn cael ei neilltuo, ac nid yw hyn yn rhoi'r rhyddid i gyrff cyhoeddus ddefnyddio adnoddau yn y ffordd sy'n iawn iddyn nhw.
- Nid yw'r cyllidebau wedi'u hintegreiddio ac mae Llywodraeth Cymru yn dal i weithio mewn seilos.

Cydlynu a gweithio cydgysylltiedig

- Nid yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn gydgysylltiedig ac weithiau mae'n creu strwythurau a gofynion adrodd sy'n gwrthdaro â'i gilydd.
 - Mae amcanion a datganiadau Llywodraeth Cymru yn rhy gul ac nid ydynt yn edrych ar draws ehangder y gweithgaredd nac yn ystyried sut y gellid cyflawni nodau drwy gydweithredu.
 - Meddylfryd seilo braidd yn Llywodraeth Cymru o ran polisi.
-

- Mae'r rhwystrau i gydweithredu yn gymhleth ac mae tensiwn rhwng gwneud hyn a gwneud y 'gwaith dydd i ddydd' i gyflawni amcanion sefydliadol.

Rhwystrau

- Mae adrodd ar berfformiad yn rhywbeth tymor byr nid tymor hir yn unol â'r Ddeddf.
- Mae'r Ddeddf yn 'cystadlu' â gofynion deddfwriaeth arall e.e. y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae hyn yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn gweithio yn ôl gwahanol 'olion traed' ac nid yw'n glir sut mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â pholisïau eraill.
- Mae'r dirwedd bolisi yn rhy gymhleth ac anniben.

Meysydd sydd angen mwy o ffocws

- Nid yw bioamrywiaeth wedi cael digon o sylw – nid yw adfer yr amgylchedd naturiol wedi cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu.
- Mae angen dangosyddion cenedlaethol o sut beth yw llwyddiant er mwyn ysgogi newid.
- Diffyg data i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau. Mae data rhagolwg ar goll ac mae angen data mwy lleol yn hytrach na data cenedlaethol i hwyluso cynllunio.

Cyrff cyhoeddus

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn craffu ar gyrff cyhoeddus nac yn eu herio o ran i ba raddau y mae'r Ddeddf yn llywio eu cynlluniau a'u strategaethau. Dylai'r Ddeddf fod yn edefyn sy'n rhedeg drwy'r cyfan.
- Diffyg cysondeb ar draws cyrff cyhoeddus yn eu dull o weithredu a dehongli'r Ddeddf.
- Rhai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn ôl-osod penderfyniadau i gyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf yn hytrach nag ymgymryd â 'meddwl heb orwelion'.

- Bydd cyrff yn cael eu llywio gan yr amcanion sefydliadol y mae Llywodraeth Cymru yn eu pennu ar eu cyfer – bydd cyflogeion yn gweithio i gyflawni'r amcanion hyn wrth geisio cydweithredu â phartneriaid.

Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

“Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth bennu'r amcanion llesiant gwreiddiol, a oedd yn anwybyddu rhai o'r nodau llesiant.”

“Mae angen mwy o gysondeb gan Lywodraeth Cymru, a chydweithio rhwng gwahanol feysydd polisi/adrannau'r Llywodraeth.”

“Mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu mwy â sefydliadau trydydd sector sydd y tu allan i'r BGC a sefydliadau'r sector cyhoeddus.”

“Byddai integreiddio'n gynnar â gofyniad cynllunio Llywodraeth Cymru i ymgorffori'r Ddeddf fel thema drawsbynciol wedi bod yn ddefnyddiol – yn hytrach na gofyniad adrodd ar wahân.”

“Integreiddio/adolygu cynharach o fewn cylchoedd cynllunio busnes/adrodd – dylai fod yn faen prawf ar gyfer adolygiad cyllid Llywodraeth Cymru?”

“Alinio cylchoedd cyllido â chylchoedd cynllunio strategol.”

“Diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru â sefydliadau gwirfoddol a diffyg sylw yn cael ei roi i faterion amgylcheddol.”

“Nid yw ffrydiau cyllido tymor byr yn ddefnyddiol – yn aml maent yn colli'r rhyng-gysylltiad rhwng elfennau o'r Ddeddf oherwydd pwysau tymor byr, meddylfryd seilo, a ffocws ar ymdrin â'r her heddiw.”

“Diffyg cysondeb o ran gweld cyfeiriad at Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhrif ddogfennau polisi/mentrau Llywodraeth Cymru.”

“Angen gwreiddio'r Ddeddf ac arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru – yn dal i weithio mewn seilos ac yn optio i mewn ac allan pan fydd hynny'n gweddu.”

“Angen mwy o gysylltedd rhwng gofynion deddfwriaethol a ddaeth i mewn tua'r un amser e.e. Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gymraeg.”

“Mae angen mapio egwyddorion a nodau craidd y Ddeddf mewn perthynas â Deddfau/polisiau/blaenoriaethau eraill mewn ffordd dryloyw fel bod pawb yn gweithio'n ôl yr un map.”

“Nid yw'r theori diferu i lawr y byddai'r Ddeddf yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad drwy newid o'r brig i lawr yn y sector cyhoeddus yn gweithio.”

“Mae'r Ddeddf yn gynllun ar gyfer cyflawni polisi mewn ffordd gydweithredol a chydgyssylltiedig – fodd bynnag mae ein systemau/dull o lywodraethu yn dal i weithio yn ôl adrannau/seilos.”

“Pan fydd Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi ac canllawiau, rhaid i'r rhain fod yng nghyd-destun y Ddeddf.”

“Mwy o gyfleoedd i gydblethu polisi a chyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi meddylfryd hirdymor.”

“Mae angen cysondeb polisi ar draws Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â sefydliadau rhanddeiliaid.”

“Angen mwy o feddwl cyfannol a datblygu polisi gan Lywodraeth Cymru.”

“Mae angen i Lywodraeth Cymru ddal i fyny â bwriad y Ddeddf o ran peidio â gweithio mewn seilos.”

“Angen integreiddio a chyngor strategol ar lefel uchel.”


“Mae'r Ddeddf wedi cael ei diwygio drwy ddiwygio meddwl o wasanaethau cyhoeddus meddal, nid newid trawsnewidiol a mynd i'r afael â systemau sy'n arwain at ganlyniadau negyddol, fel y cynlluniwyd iddi ei wneud. Nid yw wedi ystyried cyfiawnder rhwng y cenedlaethau mewn unrhyw ffordd.”

“Mae angen i ddadansoddiad geo-ofodol fod yn fwy amlwg yn ffordd Llywodraeth Cymru o feddwl.”

5. Rhwystrau posibl eraill (e.e. Brexit, COVID ac ati)

Arolwg

Fe wnaethom ni ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn: "Mae materion eraill wedi ei gwneud yn anoddach i weithredu'r Ddeddf". Ymatebodd 38 fel a ganlyn.



Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp

Cwmpas ac ymgysylltu

- Mae'r Ddeddf yn gyfle i weithio gyda'n gilydd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gormod o ffocws wedi bod ar y cyrff cyhoeddus sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf, a hynny ar draul y rhai sy'n gweithio'n agos gyda'r cyrff hynny ac sydd â rôl allweddol o ran cyflawni'r Ddeddf.
- Mae angen ailadeiladu ar ôl COVID drwy fwy o ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys cynullïadau dinasyddion lleol a chenedlaethol.

Silos a ffyrdd o weithio

- Mae gwaith yn ystod y pandemig wedi dangos pan fydd rhywbeth 'yn boeth ac yn llosgi', mae cyrff cyhoeddus yn cydweithredu ac yn gwneud hynny'n effeithiol. Fodd bynnag, ar adegau eraill a thu hwnt i COVID, maent yn ei chael yn anodd integreiddio a chydweithio'n llawn.

- Mae'n rhy hawdd beio COVID a Brexit fel rhwystrau ond mae'r rhwystrau go iawn yn fwy hirsefydlog ac yn deillio o'r ffaith bod egwyddorion y Ddeddf yn groes i'n systemau llywodraethu. Mae'r Ddeddf yn gosod cynllun i gyrff cyhoeddus gydblethu ond mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau leol yn gweithredu mewn systemau seilo. Enghraifft eithafol yw'r ffaith bod dwy Ddeddf wahanol yng Nghymru a greodd y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n dangos bod diffyg systemau llywodraethol cydgysylltiedig.
- Newid ymddygiad – oni bai bod gan gyrff cyhoeddus ac eraill y cymhelliant a'r awydd i newid, ni fyddant yn gwneud hynny. Mae gyrff cyhoeddus yn aml yn gweithredu mewn seilos.
- Rhaid peidio â cholli golwg ar y tymor hir drwy gynllunio tymor byr.
- Mae'r Ddeddf yn bwysicach nag erioed o ystyried maint yr heriau a wynebir. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r Ddeddf yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac felly a oes gan y Ddeddf 'goesau'.
- Dylai'r Ddeddf fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau o ystyried yr heriau enfawr ond nid oes digon o dystiolaeth o hyn. O'r herwydd, mae perygl iddi fod ar y cyrion ac nid mewn lle canolog.
- Mae ffactorau economaidd yn tueddu i gael eu cyfrif yn bwysicach nag ystyriaethau eraill e.e. cynaliadwyedd.

Adnoddau a chapasiti

- Adnoddau a chyllid – her wrth gyfuno. Costio mwy i sefydlu gyrff partneriaeth na'r buddion a ddaw yn eu sgil.
- Anodd arloesi a gallu i feddwl am arloesi heb adnoddau pwrpasol i hwyluso'r agwedd honno.
- Byddai mwy o gapasiti yn rhoi lle i feddwl.
- Mae diffyg adnoddau yn cael sgil-ffaith o ran rhoi lle i arloesi.
- Mae Archwilio Cymru ar daith ei hun, ac nid yw'n ymddangos ei fod wedi dod o hyd i'r ffordd orau o gyflawni ei gyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf.

Strwythur

- Mae strwythur cyrff partneriaeth yn ddryslyd.
- Dryswch ynghylch rolau BGC a byrddau partneriaeth rhanbarthol. Hefyd mae arian yn mynd drwy'r BPRh ond nid BGC, felly mae mwy o ffocws ar y BPRh. Nid yw arian yn cael ei sianelu drwy'r BGC i annog newid.
- Mae BGC, BPRh a Byrddau Cynllunio Ardal i gyd yn tueddu i fod â'r un bobl arnynt. Mae angen lleihau/aildrefnu'r rhain.
- Yn wahanol i wledydd eraill (y Ffindir, yr Almaen), nid oes byrddau cynghori strategol yn annibynnol ar y llywodraeth. Yn yr Almaen, er enghraifft, maen nhw'n tynnu ar arolygon a digwyddiadau cyhoeddus i roi cyngor arbenigol i lunwyr polisi.

Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

“Dylai'r Ddeddf fod yn fwy hanfodol yng ngoleuni'r argyfwng presennol, a dylai fod yn fframwaith ar gyfer ymdrin â nhw.”

“Rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gwneud y peth iawn, nid y peth hawdd.”


“Mae nifer y gwahanol strwythurau yn rhwystr - BGC/BPRh/BCA/Byrddau Diogelu. Llauer o ddyblygu ac adnodd enfawr i gyrff cyhoeddus sy'n eistedd ar bob un.”

“Rydym yn rhy wrth-risg o hyd. Mae bod mor wrth-risg yn peri risg ei hun o ystyried yr heriau rydym yn eu hwynebu, yn enwedig yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, yn ogystal â COVID, effeithiau hynny ar ein heconomi a llauer o broblemau arwyddocaol eraill yr ydym yn eu hwynebu. Mae methu ag ymateb yn briodol i'r rhain yn risg enfawr.”

6. Edrych tua'r dyfodol – sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol

Arolwg

Fe wnaethom ni ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol: "pa un o'r canlynol sydd fwyaf arwyddocaol o ran gweithredu'r Ddeddf?" Ymatebodd 38 fel a ganlyn.



Yr hyn a glywsom yn ystod y drafodaeth grŵp

Cyfranogiad ehangach

- Mae cyfranogiad cyrff eraill y sector cyhoeddus nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf yn bwysig er mwyn sicrhau bod 'edefyn euraidd' yn rhedeg drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru – rhywbeth a all yrru canlyniadau ac atebolrwydd. Er enghraifft, System Llesiant Genedlaethol.
- Mae'r trydydd sector eisiau gwneud cyfraniad ac mae angen ffordd ystyrlon o ymgysylltu â'r Ddeddf.
- Mae dod â dinasyddion yn rhan ohoni gan fod newidiadau'n creu fforymau ystyrlon ar gyfer ymgysylltu.
- Os nad ydych yn aelod o BGC, di mynediad at wybodaeth ac yn methu cyfrannu.

- Creu mecanweithiau lle gall pobl [dinasyddion] helpu i wneud i newid ddigwydd a bydd y gymdeithas ddinesig ehangach yn cymryd rhan.
- Rhaid i BGC gael fforwm i gyfathrebu â'r cyhoedd.
- Angen mwy o lefel gymunedol a manwl iawn – mae rhywfaint o weithgaredd ar y lefelau hyn ond mae amser yn rhwystr.
- Mae ymgysylltiad gwell â'r cyhoedd yn hanfodol – mae angen i bobl leol ddeall y Ddeddf a rhaid iddynt gyfrannu at ei gweithredu. Mae hynny'n cynnwys gweithio gyda phobl ifanc ac ysgolion, gan roi'r cyfle i bobl ifanc eu hunain gyfrannu at y gwaith o ddadansoddi data a datrys problemau
- Mae angen i gyrff cynllunio gofleidio'r Ddeddf.
- Dylai fod mwy o gyfranogiad gan randdeiliaid yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru.
- Mae angen i sefydliadau lleol deimlo'n ddigon hyderus i weithio gyda phwy bynnag y mae angen iddynt i ddatrys materion penodol. Bydd hynny'n golygu gweithio gyda gwahanol sefydliadau a chyrrff cyhoeddus yn dibynnu ar y mater.
- Angen cynnwys y bobl rydym yn eu gwasanaethu wrth wneud penderfyniadau

Mesur llwyddiant

- Mae angen inni edrych ar sut mae llwyddiant yn cael ei fesur a beth yw canlyniadau llwyddiannus. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf lunio adroddiad blynyddol rhagnodedig, ond gyda pha ganlyniad.
- Aseiad cyffredin i'w ddefnyddio ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol/BGC fel bod pawb yn gwybod beth sy'n cael ei fesur a'i adrodd.
- Mae angen cerrig milltir clir a dangosyddion llwyddiant i bennu graddfa a chyflymder y newid.
- Rhaid ymgorffori cyfiawnder rhwng y cenedlaethau yn y broses o wneud penderfyniadau i egluro'r effaith y mae penderfyniadau heddiw yn ei chael ar bobl yn y dyfodol.

- Cydnabod bod rhai nodau sy'n anoddach ac angen hwb go iawn.
- Dangos yn bendant (gyda set glir o ddisgrifiadau) sut bydd pethau'n edrych wedi i ni weithredu'r Ddeddf.
- Mesur dyhead ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen cerrig milltir cenedlaethol i helpu Llywodraeth Cymru i weld lle mae angen iddi fynd a mesur cynnydd a chanlyniadau.
- Mae angen dyrchafu rhai o'r nodau llesiant o'u safle ymylol mewn cynlluniau, fel 'Cymru gydnerth'.
- Mae angen darlun clir o sut bydd Cymru o'r radd flaenaf yn edrych.
- Angen canolbwyntio ar ganlyniadau – edrych ar y darlun mawr
- Chwalu seilos – angen adnoddau, atebolrwydd a chraffu ar y cyd ar gyfer canlyniadau ar y cyd.

Rôl y Comisiynydd

- Swyddfa'r Comisiynydd i fod yn hwyluswyr i'r sector cyhoeddus nid gorfodwyr i helpu i gyflawni/pontio'r bwlch.
- Stopiwch lunio dogfennau 800 tudalen.
- Nid oes gan swyddfa'r Comisiynydd ddigon o adnoddau i allu darparu cefnogaeth briodol.

Llywodraeth Cymru

- Angen Gweinidog Cabinet sydd â chyfrifoldeb unigol am y Ddeddf – mecanwaith i dynnu holl bolisïau Llywodraeth Cymru ynghyd a stopio gweithio mewn seilos. Gwaith cydgyssylltiedig Llywodraeth Cymru. Angen edrych yn radical ar y bwriad hirdymor. Os ydych chi am i'r Ddeddf gyflawni, dyna'r cyfeiriad y mae angen mynd.
 - Angen cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd, iechyd y cyhoedd, tai.
 - Gallai grŵp rhanddeiliaid strategol roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyflawni a helpu gydag integreiddio.
 - Y Prif Weinidog yn cyfarwyddo ei Weinidogion i weithio mwy yn unol â'r Ddeddf a rhyngweithio'n fwy deinamig â'r Ddeddf.
-

- Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy radical gyda meini prawf cyllido a chysylltu'r rhain â pha mor dda y mae cyrff yn cyflawni'r Ddeddf.
- Polisi cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru gyda chyfnodau ac amserlenni cynllunio cyson.
- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd agwedd llawer mwy integredig tuag at bolisi, oherwydd mae cyngor cyfredol gan Lywodraeth Cymru sy'n gwrthdaro â'r Ddeddf.
- Gweinidog yn canolbwyntio'n llwyr ar ddod â seilos mewn llywodraeth at ei gilydd.
- Mae angen i ddogfen adfer COVID Llywodraeth Cymru adlewyrchu'r Ddeddf.

Cyflymder y newid

- Byddai'n naif disgwyl gweld tystiolaeth o newidiadau mor fuan. Bu rhuthr enfawr i baratoi cynlluniau llesiant. Roedd hyn yn hurt, ac mae angen i ni gael mwy o amser i lunio'r un nesaf. Newidiadau sylweddol dros y 25 mlynedd nesaf. Rydym 5 mlynedd i mewn ac mae angen i ni fod yn realistig ynglŷn â'r hyn rydym yn anelu ato.
- Newid graddol – mae angen gweld pethau'n gweithio a pheidio â chael y fath ddisgwyliadau enfawr ar ddechrau proses hir.

Cwmpas a dull gweithredu

- Dylai cyrff eraill fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf os ydynt yn cael symiau mawr o arian Llywodraeth Cymru.
 - Dylid creu grwpiau gorchwyl a gorffen penodol i ymdrin â phroblemau penodol ac argymell sut i'w goresgyn
 - Mae angen mwy o arweiniad o ran beth mae'r ddeddfwriaeth yn ei olygu yn ymarferol i wahanol gyrff cyhoeddus
 - Dylid ystyried cymhwyso'r ddeddfwriaeth i waith cyfredol yn hytrach na gwaith newydd yn unig, neu ni fydd yn gweithio
 - Mae angen bod yn fwy hyblyg o ran cyllidebau a chynllunio tymor hwy
 - Ar hyn o bryd, mae'r meddylfryd yn rhy gul ac mae angen meddwl yn llawer ehangach.
-

- Gwneud y pethau iawn, yn hytrach na'r hyn y mae sefydliadau'n cael eu hariannu i'w wneud – mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth ddewr.
- Mae COVID yn rhoi cyfle inni wneud pethau'n wahanol.
- Ffordd wahanol o edrych ar reoli newid – wedi arfer gwneud pethau'n raddol, ond efallai bod angen i ni gael ysgytwad.
- Mae angen canolbwyntio ar blant egnïol, iach, hapus – mae'n rhaid i ni flaenoriaethu cenedlaethau'r dyfodol – er mwyn rhoi mwy o obaith iddynt ar gyfer y dyfodol nag sydd gennym ni nawr. Cenhadaeth i bawb.
- Yr her fydd sut i gadw'n ystwyth a hyblyg i ymdrin â materion sy'n codi wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir.
- Mae egwyddorion y Ddeddf yn glir ac yn cynnig strwythur, ond mae angen mwy o ganllawiau, cyfarwyddyd gweithredu ac astudiaethau achos gan fod cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r Ddeddf mewn ffordd anghyson. Mae angen cyfarwyddyd mewn perthynas â sut mae deddfwriaeth yn cael ei dehongli mewn cyd-destun gwahanol. Mae yna berygl, heb hyn, y bydd y Ddeddf yn cael ei chymhwyso i brosiectau ac yn cael ei gweld fel bod ar y cyrion yn hytrach nac yn cael ei hymgorffori yn y ffordd y mae sefydliad yn gweithredu.
- Mae sefydliadau a chyrrff yn teimlo nad ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif o ran y cyfeiriad neu'r gweithredu hirdymor.
- Mae angen mwy o gefnogaeth ac arweiniad ar gyfer meddwl a chynllunio hirdymor. Mae hwn yn gysyniad newydd i rai cyrff. Hefyd gall rhai cyrff fod yn mynd trwy newid, sy'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio ar gyfer yr hirdymor.
- Mae angen gwneud mwy ar lefel ranbarthol er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltiad cymunedol.
- Angen un ôl troed ar gyfer pob sefydliad.
- Dylai'r Ddeddf gael ei hymgorffori'n rhan o'r cwricwlwm newydd.
- Ymgorffori mewn addysg ôl-16 i'r rheini sy'n dymuno dilyn gyrfaedd lle mae gwybod am y Ddeddf.
- Mae angen ystyried rhai materion yn llawer ehangach nag sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, e.e. mae iechyd yn llawer ehangach na'r GIG yn

unig, a dylai'r GIG hefyd edrych ar faterion eraill fel effeithlonrwydd ynni a theithio llesol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- Dylai BGC gael eu hariannu'n well.
- A oes gormod o BGC, ac a ddylent fod ar yr un ôl troed â BPRh.
- Er gwaethaf cyd-gyfrifoldeb am y Ddeddf, mae cyrff gwasanaeth cyhoeddus yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb gwaith.
- Ar hyn o bryd mae gormod o BGC ac mae eu rolau gwahanol yn ddryslyd

Cyllid

- Mae natur tymor byr barhaus y cyllid yn ei gwneud hi'n anodd iawn cynllunio ar gyfer camau gweithredu hirdymor.
- Mwy o waith cydgyssylltiedig a llai o waith mewn seilos.
- Dylid rhoi mwy o gefnogaeth gyda chyllid.
- Symud i ffwrdd o gyllid mewn seilos.
- Angen cydraddoli cyllid.

Rhannu arfer da

- Gellid gwneud pethau fel rhannu enghreifftiau o arferion da wrth weithredu'r Ddeddf er mwyn gwella'r ffyrdd o weithio.
- Ar hyn o bryd mae llawer o waith ar lawr gwlad yn mynd heb i neb sylwi arno ac mae angen gofyn cwestiynau ynghylch sut mae modd gwneud hyn yn fwy gweladwy.

Sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

“Cael gwared ar BGC.”

“Fforymau i'r cyhoedd, dinasyddion a chymunedau ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon fel cynghreiriaid yn y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant – gwirio synnwyr, rhannu adnoddau, dwyn i gyfrif.”

“Cyllid â ffocws ar ganlyniadau.”

“Atebolrwydd ar y cyd i gael cefnogaeth drwy gyllideb ar y cyd.”

“Gogwyddo adnoddau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi yn y maes iechyd. Mesur dyfodol dyheadol.”

“Mesur llwyddiant o ganlyniadau yn erbyn cerrig milltir sy'n berthnasol i'r cyhoedd ac yn cael eu gyrru ganddo, nid y sefydliadau eu hunain.”

“Dangosyddion ac ymgysylltiad ystyrlon â chymunedau.”

“Ystyriwch a oes angen ymestyn cwmpas sefydliadau/cyrff y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu, mewn ymgynghoriad â chyrff/sefydliadau posibl.”

“Canllawiau gweithredu hawdd a syml ar gyfer pob agwedd ar fywyd/polisi cyhoeddus, gan annog gweithio cydgysylltiedig.”

“Buddsoddi mewn capasiti ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cynllunio/cyflawni.”

“Darparu mesurau gwell a sicrhau bod modd gwneud cymariaethau ar draws Cymru.”

“Rhaid rhoi mwy o adnoddau i swyddfa'r Comisiynydd i gefnogi sefydliadau ar lefel strategol.”

“Un man galw mwy unedig ar lefel ranbarthol ar gyfer cyflawni drwy bartneriaeth.”

“Grŵp rhanddeiliaid i weithredu'r Ddeddf.”

“Mae angen dangos bod y Ddeddf yn berthnasol i'r cyhoedd.”

“Cronfa i annog gweithgareddau ar y cyd o dan y Ddeddf.”

“Hyfforddiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i ddeall pwysigrwydd y Ddeddf.”

“Cynulliad dinasyddion ag adnoddau priodol, efallai gyda fersiwn leol a chenedlaethol.”

“Os ydym am i'r cyhoedd ddeall y Ddeddf, mae angen i ni wneud y wybodaeth yn ddealladwy ac yn berthnasol ar lefel leol hefyd.”

“Adnodd i hwyluso'r Ddeddf.”

“Ei gwneud yn rhanbarthol gydag atebolrwydd i gymunedau lleol.”

“Paneli cyfiawnder rhwng cenedlaethau sy'n gwirio rhaglenni strategol Llywodraeth Cymru.”

“Adolygu ac egluro'r strwythur partneriaethau yng Nghymru. Mae gormod o grwpiau yn gwneud y dirwedd bartneriaethau yn ddryslyd.”

“Byddai sicrwydd tymor hwy o ran trefniadau cyllido yn newid ymddygiadau, yn annog cydweithredu ac arloesi – hyd yn oed pe bai'r rhain yn setliadau cyllid dangosol yn unig.”

“Dylai holl bolisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru fynd drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dylent fod yn glir ynghylch y cyfraniad at y nodau.”